Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (MÔN A GWYNEDD)** | **SPECIAL EDUCATIONAL NEEDS JOINT-COMMITTEE (ANGLESEY & GWYNEDD)** |
| **DYDD GWENER, 9 IONAWR 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn** | **FRIDAY, 9 JANUARY, 2015 at 2:00 p.m.** |
| **SIAMBR HYWEL DDA, PENCADLYS CYNGOR GWYNEDD, CAERNARFON** | **HYWEL DDA CHAMBER, GWYNEDD COUNCIL HEADQUARTERS, CAERNARFON** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU/MEMBERS:**

Cynghorwyr/Councillors:

**CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**

Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Jones, Beth Lawton, Caerwyn Roberts *(Cadeirydd/Chair)* Peter Read, Eirwyn Williams.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Derlwyn Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Llinos M.Huws *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Gwilym O.Jones, R.Meirion Jones, J.Arwel Roberts, Ieuan Williams

**YR EGLWYS/THE CHURCH**

Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales)
Gwag/Vacant (yr Eglwys Babyddol Rufeining/The Roman Catholic Church)
Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion/Free Churches)

# R H A G L E N

**1** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **<u>COFNODION CYFARFOD 19 MEDI, 2014</u>** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2014.

**3** **<u>YR UNED DDARPARU AAA</u>** (Tudalennau 7 - 10)

Cyflwyno adroddiad yr Uned Ddarparu AAA ar gyfer Tymor yr Haf, 2014.

**4** **<u>Y SEFYLLFA ARIANNOL A THORIADAU CYLLIDEBOL</u>**

Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn i adrodd ar lafar ynglyn â'r uchod.

**5** **<u>ADRODDIAD ARIANNOL - ADOLYGIAD O GYFRIFON 2014/15</u>**

Cyflwyno adroddiad ynglyn â'r uchod.
*(Adroddiad i ddilyn)*

**6** **<u>GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD</u>**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig. *(Prawf i ddilyn)*

**7** **<u>STRATEGAETH CYNGOR GWYNEDD AR GYFER ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD</u>**

Cyflwyno adroddiad ynglyn â'r uchod.
*(Adroddiad i ddilyn)*

**8** **<u>CYFARFOD NESAF</u>**

Dydd Gwener, 13 Mawrth, 2015 am 10:30 y bore yn Llangefni.

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd E.Caerwyn Roberts (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn ) (Is-Gadeirydd)<br><br>**Cyngor Gwynedd**<br><br>Cynghorwyr Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Eirwyn Williams<br><br>**Cyngor Sir Ynys Môn**<br><br>Gwilym O.Jones, R.Meirion Jones |
| **WRTH LAW**: | Mr Gareth Payne (Prif Seicolegydd Addysgol)<br>Mr Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Datblygu Cyngor Gwynedd)<br>Dr Gwynne Jones (Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn)<br>Mr Owen Owens (Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd)<br>Mrs Delyth Molyneux (Pennaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn)<br>Mr William E.Jones (Uwch Reolwr Cyllid Cyngor Gwynedd)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd), Cynghorwyr Derlwyn Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Ieuan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)<br>Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Portffolio Addysg Cyngor Gwynedd), Amanda Hughes (Swyddfa Archwilio Cymru) (ar gyfer eitem 3) |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig.

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor a gynhaliwyd ar 4ydd Gorffennaf, 2014 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

**3. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG AM Y FLWYDDYN GYLIDOL YN DIWEDDU MAWRTH, 2014**

Cyflwynwyd y ddogfennaeth ganlynol er ystyriaeth y Cyd-Bwyllgor :

- Datganiad Cyfrifon terfynol ôl-archwiliad y Cyd-Bwyllgor am 2013/14 gyda'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Adroddiad Swyddfa Archwiliad Cymru yn amlinellu canfyddiadau'r archwiliad allanol o'r Datganiadau Ariannol.
- Llythyr Cynrychiolaeth.



DRAFT

Adroddodd Uwch Reolwr Cyllid Cyngor Gwynedd bod y datganiad o gyfrifon drafft cyn-archwiliad 2013/14 y'u cyflwynwyd i gyfarfod y Cyd-Bwyllgor ym mis Gorffennaf bellach wedi'u harchwilio'n annibynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r mân newidiadau yn y cyfrifon ers cyflwyno'r fersiwn cyn archwiliad yn cael eu hegluro yn Adroddiad ISA 260 Swyddfa Archwilio Cymru fel yr Archwiliwr Allanol. Mae gofyn i Gadeirydd y Cyd-Bwyllgor ynghyd â'r Pennaeth Cyllid ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth a gyflwynir o dan Atodiad 1 i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i i'r Cyd-Bwyllgor ystyried y ddogfennaeth a bodloni'i hun ar y cynnwys. Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio bydd yr Archwilydd Penodedig yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon erbyn 30 Medi yn unol â'r amserlen statudol.

Cadarnhaodd Amanda Hughes, Swyddfa Archwilio Cymru annibynniaeth yr archwilwyr a dywedodd mai barn yr Archwilydd Penodedig ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyd-Bwyllgor yw eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth, 2014 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, a'u bod wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Côd Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012/13. Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi adroddiad diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y darperir y Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad. Dywedodd y Swyddog na nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau sy'n parhau heb eu cywiro ac mae'r camddatganiadau hynny a gywiriwyd gan y rheolwyr wedi'u nodi o dan Atodiad 3 yr adroddiad. Amlygir un mater yn ymwneud ag agwedd ansoddol ar yr arferion cyfrifyddu a'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol yr ymhelaethir arno o dan baragraff 13 yr adroddiad ISA 260. Fel arall, nid oes unrhyw faterion pellach yn codi mae gofyn dwyn sylw atynt.

Diolchwyd i Amanda Hughes a Swyddfa Archwilio Cymru am eu gwaith yn gysylltiedig â'r cyfrifon.

**Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo -**

- **Adroddiad ISA 260 yr Archwilydd Penodedig ar yr Datganiadau Ariannol ynghyd â'r**
- **Datganiad o'r Cyfrifon ôl-archwiliad am 2013/14.**

## 4. PAPUR GWYN ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Cyd-Bwyllgor, adroddiad gan y Prif Seicolegydd Addysgol yn crynhoi'r prif newidiadau arfaethedig a gyflwynir gan Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru yn nghyswllt y ddeddfwriaeth sydd yn gosod allan y trefniadau ar gyfer diwallu plant a chanddynt anawsterau addysgol a'u hoblygiadau i'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a'i ffordd o weithredu.

Cyfeiriodd y Prif Seicolegydd Addysgol at y newidiadau mwyaf arwyddocaol fel a ganlyn –

- Egwyddorion – rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd diwallu anghenion bob plentyn
- Terminoleg – cynigir defnyddio'r term, "Anghenion Dysgu Ychwanegol" yn lle "Anghenion Addysgol Arbennig".
- Cydweithio a Gwrthdaro – cryfhau prosesau cyd-weithio fel bo llai o wrthdaro rhwng awdurdodau a defnyddwyr.
- Ymestyn Ystod Oed – cynigir bod y drefn yn cael ei hymestyn i gynnwys bob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed y nodwyd bod ganddo/ganddi Anghenion Dysgu Ychwanegol ac sy'n derbyn neu'n dymuno derbyn addysg neu hyfforddiant. Rhoddir y cyfrifoldeb am hyn ar yr awdurdodau addysg lleol.
- Cynllun Datblygu Unigol i gymryd lle'r Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig i gynnwys plant sydd ar hyn o bryd yn dilyn Cynlluniau Addysg Unigol anstatudol o fewn yr ysgolion a chynlluniau ôl-16 sy'n golygu y gall y Cynllun Datblygu Unigol fod yn eang iawn a gall amrywio yn ôl oed, lleoliad a dwyster anghenion yr unigolyn.
- Côd Ymarfer Newydd - i'w gyhoeddi. Bydd yn darparu arweiniad ar weithredu'r newidiadau a bydd yn fandadol.
- Barn y Plant a'u rheini – rhaid ymgynghori gyda'r rhiant a'r plentyn ei hun a gwrando ar eu barn.
- Asiantaethau Eraill – mae'r pwyslais ar ymwneud yn gynnar ac ar rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill.
- Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol i'w leoli ym mhob ysgol.
- Hawl apelio yn cael ei ymestyn i'r plant a phobl ifanc eu hunian a phobl ifanc oed 16 a mwy.
- Cost – gyda chynllunio manwl, barn y Llywodraeth yw na ddylai'r gyfundrefn newydd gostio mwy na'r un bresennol. Fodd bynnag, mae yna botensial am gostau uwch yn deillio o apeliadau ynglyn

â phlant nad ydynt ar ddatganiad ac wrth greu trefn mwy cynhwysfawr ar gyfer datrys anghydfodau.

Adroddod y Prif Seicolegydd Addysgol ar y ffyrdd y bydd y Papur Gwyn yn debygol o effeithio ar y Cyd-Bwyllgor yn enwedig o du cynyddu'r llwyth gwaith yn sgîl ymestyn oedran y garfan o blant a phobl ag anghenion addysgol arbennig y bydd y Cyd-Bwyllgor yn gyfrifol am eu diwallu. Dywedodd mai'r newid mawr fydd y gofyn i weithio gyda cholegau addysg bellach nad oes gan y Cyd-Bwyllgor bresenoldeb ynddynt ar hyn o bryd. Rhagwelir y posibilrwydd y bydd angen cynyddu'r gweithlu o 20%, sy'n gyfystyr â hanner seicolegydd ac un a hanner athrawes deithiol arbenigol er mwyn cynnal y bobl ifanc yma. O du'r adrannau addysg bydd y ddau awdurdod addysg yn gyfrifol am fonitro cynlluniau addysg unigol llawer mwy o blant a phobl ifanc. Er fod gan y Cyd-Bwyllgor systemau i wneud hyn bydd ffurfioli cymorth cynhaliaeth ysgol a mwy ac ymestyn hyn i blant iau ac i fyfyrwyr coleg addysg bellach yn golygu mwy o waith swyddfa yn ymwneud â phrosesu ceisiadau a phenderfynu ar ddilysrwydd rhaglenni a darpariaethau. Gellir rhagweld cynnydd o 20% o leiaf yn yr amser y bydd ei angen ar dîm gweinyddol y Cyd-Bwyllgor sy'n cyfateb i oddeutu un person a hanner. At hynny, mae yna botensial i gynyddu'r nifer o achosion apêl neu o leiaf y nifer o achosion fydd yn mynd trwy'r system datrys anghytundebau.

Ystyriodd y Cyd-Bwyllgor y wybodaeth a bu i'r Aelodau fynegi pryder ynghylch yr effaith ar y Cyd-Bwyllgor, ei wasanaethau a'i weithlu o ymestyn ystod oed yr unigolion bydd gofyn cwrdd â'u hanghenion o blant ifanc iawn ar y naill begwn i bobl ifanc hyd at 25 oed ar y pegwn arall.

Dywedodd Pennaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn bod i gynigion y Papur Gwyn oblygiadau sylweddol i wasanaethau lleol o safbwynt cynllunio, penderfynu, cyd-ddarparu ac ysgwyddo'r costau y rhagwelir y byddant yn fawr. Bydd gofyn arall-gyfeirio costau presennol yn y Gwasanaethau Oedolion. Fe all bydd y gofynion yn golygu cynyddu'r gweithlu yn fwy na'r un a hanner seicolgeydd ac un a hanner athrawes arbenigol y rhagamcanir. Mae yna hefyd oblygiadau o ail-alinio cyllidebau lleol i gyfarfod â'r gofynion.

Dywedodd Uwch Reolwr Cyllid Cyngor Gwynedd os rhagwelir y bydd y costau gymaint yn uwch ar ôl i'r Papur Gwyn ddod i rym y flwyddyn nesaf yna bydd angen cynnal gwaith i asesu hynny gan y bydd cynghorau Gwynedd a Môn yn dymuno gwybod maint yr ymrwymiadau ariannol ychwanegol y bydd gofynion y Papur Gwyn yn eu rhoi arnynt yn y flwyddyn gyllidol i ddod.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan y ddeddfwriath berthnasol i gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod am y rhesymau a roddir yn y ddalen Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.

## 6. ADOLYGIAD STRATEGOL ANGHENION ADDYSGOL YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad er ystyriaeth y Cyd-Bwyllgor yn amlinellu gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer meysydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad .

Adroddod Aelod Portffolio Addysg Cyngor Gwynedd bod trawsnewid gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc yn enwedig rhai bregus, yn un o brif flaenoriaethau Cynllun Strategol y Cyngor. Bydd cynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn ganolog i unrhyw gynlluniau fydd yn cael eu datblygu o'r newydd. Un o'r cynlluniau trawsnewidiol hynny yw'r Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad sy'n rhoi sylw i faes darpariaeth sy'n gymhleth, sensitif ac aml-asiantaeth. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio Addysg at amcan yr adolygiad a'r cyd-destun y'i cynhelir ynddo a hwnnw yn cynnwys newidiadau ar sail cenedlaethol megis y Papur Gwyn ac ar sail lleol megis y rhaglen ar gyfer adeiladu ysgol arbennig newydd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn sir Gwynedd. Crybwyllodd yr Aelod Portffolio y math o



DRAFT

ddeilliannau y byddid yn deisyfu eu gwireddu drwy'r adolygiad ar gyfer yr unigolion fel defnyddwyr y gwasanaethau ac ar gyfer yr awdurdodau fel darparwyr a chomisiynwyr ac fe soniodd am y broses ymgysylltu a'r casgliadau y bu i'r broses honno arwain atynt.

Ategodd Cyfarwyddwr Datblygu Cyngor Gwynedd y sylwadau ac fe ddywedodd bod y Gwasanaeth Anghenion Addysgol Ychwanegol yn faes y buddsoddir bron i £15m arno yn flynyddol.Y bwriad trwy gynnal adolygiad yw sicrhau'r deilliannau gorau i blant yr ardal y mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol fel eu bod yn cyflawni at eu llawn botensial. Edrychwyd ar y maes yn ei gyfanrwydd ac ar wasanaethau i blant a theuluoedd ac fe luniwyd cynigion cychwynnol gyda golwg ar wella effeithiolrwydd y gwasanaeth a'i effeithlonrwydd er mwyn sicrhau y ceir y gwerth gorau o'r adnoddau a fuddsoddir ynddo. Mae'r rhaglen waith ar ddiwedd yr adroddiad yn crynhoi'r ffrydiau gwaith presennol o dan y prif benawdau canlyniad y deisyfir i'r adolygiad eu cyflawni. Ymhlith y tasgau a adnabyddwyd mae adolgu swyddogaeth y Cyd-Bwyllgor fel y corff y comisiynir darpariaeth ganddo ac yng ngoleuni'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn y maes. Bydd rhai o'r gweithgareddau yn y rhaglen waith yn gyffredin i'r ddau awdurdod.

Nododd Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn y meysydd hynny o fewn rhaglen waith yr Adolygiad Strategol yr oedd yr Awdurdod ym Môn yn cydsynio iddynt ac eisoes yn symud i'r un cyfeiriad ac fe amlygodd y gweithgaredd lle'r oedd ymagwedd Ynys Môn yn wahanol. Cytunodd bod angen bod yn fwy eglur o ran comisiynu gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor ond bod Ynys Môn yn gweld hynny'n digwydd trwy ehangu'r Cyd-Bwyllgor a chomisiynu'n galetach.

Dywedodd Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd bod yr adolygiad strategol wedi awgrymu bod yna le i ystyried cyfuno swyddogaeth rheolwr addysg a chynhwysiad yng Ngwynedd gyda rôl seicolegydd addysgol yn yr ystyr bod gan y swydd ddeilydd arbenigedd ym maes seicoleg addysg. Mae'r maes Anghenion Addysgol Ychwanegol yn un eang o ran y niferoedd a ddaw o fewn cwmpawd ei wasanaethau yng Nghwynedd a chredir bod angen cefndir penodol i'r swydd fel y gall roddi'r arweiniad priodol i'r gwasanaethau yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth newydd a hefyd o ran gweithredu fel y prif swyddog comisiynu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

Mynegwyd pryder gan gynrychiolaeth Ynys Môn ar y Cyd-Bwyllgor o ystyried prinder seicolegwyr addysgol cymwys dwyieithog tu allan i sefydliad y Cyd-Bwyllgor, y gellir diwallu'r gofyn hwn ond drwy dynnu ar yr arbenigeddau o fewn y Cyd-Bwyllgor a thrwy hynny o bosib, gwanio'r Cyd-Bwyllgor a'r ddarpariaeth ar draws y ddwy sir. Nodwyd y sefydlwyd y Cyd-Bwyllgor i oresgyn prinder arbenigeddau yn y maes yn lleol ac i gyd-weithio i sicrhau pwll o arbenigeddau ar draws ystod anghenion addysgol arbennig ar gyfer y ddwy sir.

Dywedodd Cyfarwyddwr Datblygu Cyngor Gwynedd bod yna wariant cyhoeddus sylweddol yn cefnogi'r Cyd-Bwyllgor a bod yna ofyn dangos y ceir y gwerth gorau o'r buddsoddiad hwnnw a'r deilliannau gorau i blant yn lleol. Mae angen monitro'r ddapariaeth a'r gwariant a gosod disgwyliadau clir ar waith y Cyd-Bwyllgor a'i ddiffinio'n well fel ei fod yn glir ynglyn â sut mae'n gwneud gwahaniaeth. Oherwydd y cyd-destun ariannol a'r wasgfa ar gyllid cyhoeddus ynghyd â'r disgwyliadau newydd, mae gofyn datblygu'r berthynas rhwng darparu a chomisiynu a'i wneud yn fwy pendant.

Eglurodd Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Ynys Môn bod yr Awdurdod ym Môn hefyd wedi adnabod y gofyn o ran tynhau ar brosesau ac ar drefn monitro'r Cyd-Bwyllgor o safbwynt cyfiawnhau'r gwariant arno a bod angen ail edrych ar y comisiwn a roddir i'r Cyd-Bwyllgor fel bod yna dynhau ar reolaeth rhai achosion. Fodd bynnag, gwêl Ynys Môn hynny'n digwydd trwy ehangu swyddogaeth y Cyd-Bwyllgor yn hytrach na thrwy swydd benodol. Byddid yn dymuno cael trafodaeth i ganfod a yw'n ymarferol cynnwys yr elfen hon o fewn gwaith y Cyd-Bwyllgor.

Dywedodd Cyfarwyddwr Datblygu Cyngor Gwynedd mai un elfen o'r rhaglen drawsnewid yw rôl y Cyd-Bwyllgor a bod nifer o'r ffrydiau gwaith yn y rhaglen waith yn rhai y gellir cyd-weithio a chyd-gynllunio arnynt gydag Ynys Môn. Fel y ddau gleient mae'n bwysig bod yr awdurdodau'n cyd-weithio ar y brîff i'r Cyd-Bwyllgor.

Cytunodd y Cadeirydd bod yna le i drafod ymhellach a bod y Cyd-Bwyllgor yn gytun ynglyn â chael y deilliannau gorau i blant y ddwy sir.

Dygodd Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn sylw'r Cyd-Bwyllgor hefyd at y ffaith bod pob gwasanaeth ym Môn gan gynnwys y Gwasanaeth Addysg wedi derbyn cais i adnabod arbedion hyd at 10% ar gyfer 2015/16 a bod cynigion i'r perwyl yn cael eu llunio a'u cyflwyno. Ymhlith yr opsiynau mae cwtogi ar gyllideb y Cyd-Bwyllgor. Dywedodd y Swyddog ei fod yn awyddus i godi ymwybyddiaeth y Cyd-Bwyllgor o'r posibilrwydd hwn ac i gael trafodaeth yn ei gylch.

**Penderfynywd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**GWEITHREDU PELLACH:**

- **Cyfarwyddwr Datblygu Cyngor Gwynedd i adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor ar gynnydd mewn perthynas ag adolygu'r ffordd ymlaen ar gyfer anghenion addysgol arbennig a chynhwysiad yng nghyd-destun y trafodaethau pellach sydd i'w cynnal.**
- **Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn i adrodd yn ôl ar yr sefyllfa gyllidol a'r arbedion y bydd gofyn eu gwneud.**

## 7. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor am 10:30 y bore, dydd Gwener, 21 Tachwedd, 2014 yn Llangefni.

**Cynghorydd E.Caerwyn Roberts**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig |
| **DYDDIAD:** | 9ed Ionawr 2015 |
| **TEITL YR ADRODDIAD**: | Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA |
| **GWEITHREDU**: | Ystyried yr adroddiad |

**CEFNDIR**: Disgrifir gwaith Uned Ddarparu'r Cydbwyllgor AAA yn ystod Tymor yr Haf 2014

# Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA

## Tymor yr Haf 2014

### 1.0 Gweinyddu Prosesau Asesu ac Adolygu

Cychwynnodd y tymor yn dilyn ymadawiad yr Uwch Swyddog Gweinyddol, oedd yn golygu fod y gwaith yn cael ei rannu ymysg y tîm gweinyddol am gyfnod, gydag un aelod yn gweithredu ar adroddiadau, aelod arall yn prosesu salwch a gwyliau ac aelod arall yn cadw trosolwg ar y swyddfa’n gyffredinol.

Mae cryn dipyn o waith wedi bod yn mynd ymlaen er mwyn rhyddhau ceisiadau am gymorth 3* yn Ynys Môn i’r ysgolion gan ei bod nawr yn datganoli cyllid am anghenion arbennig. Pwysau gwaith wedi bod yn drwm ar y staff gan ei bod yn ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol yn ystod y cyfnod heb USG.

Penderfynwyd hysbysebu am y swydd USG a phenodwyd aelod o staff newydd diwedd Mehefin ar sail secondiad hyd ddiwedd mis Mawrth. Roedd y tîm gweinyddol yn gweithio i’w gapasiti llawn erbyn diwedd y tymor.

Dyma oedd cyfansoddiad y timau ar ddiwedd y tymor:

| | |
|---|---|
| Cydlynydd Datganiadau | 1.0 llawn amser |
| Cydlynydd Datganiadau Cynorthwyol | 0.9 llawn amser |
| Uwch Swyddog Gweinyddol | 1.0 llawn amser |
| Cymhorthydd Gweinyddol | 1.0 llawn amser |
| Cymhorthydd Gweinyddol | 1.0 llawn amser |
| Cymhorthydd Gweinyddol | 1.0 llawn amser |
| Cymhorthydd Gweinyddol | 0.4 llawn amser |
| Cymhorthydd Gweinyddol | 0.4 llawn amser |

### 2.0 Gwasanaeth Athrawon Arbenigol

Rydym wedi parhau efo’r ymdrechion i geisio sicrhau cyflenwad digonol o athrawon arbenigol i’r dyfodol.

Dechreuodd y tymor gydag anawsterau yn y Gwasanaeth Plant ag Anawsterau Golwg yn enwedig. Y sefyllfa ddechrau’r tymor oedd hyn: roedd y gwasanaeth wedi bod yn ddwy athrawes lawn amser, efo cymorth rhan amser gan gymhorthydd profiadol yn y maes. Ond roedd un o’r athrawon yn sâl, ac yn debygol o fod yn absennol am gyfnod hir, yn gadael y gwaith i un athrawes yn unig. Roedd yr athrawes yma’n dechrau cael anawsterau iechyd ei hun, ac roedd yr athrawes oedd yn sâl wedi penderfynu ymddeol.

Cynhaliwyd cyfweliadau ym Mai, a chynigwyd swydd i unigolyn oedd yn ymgeisydd cryf, ond yn anffodus penderfynodd nad oedd eisiau dod i weithio efo ni. Trefnwyd i athrawes oedd yn gweithio i ni’n rhan amser mewn maes arall, ond a oedd a phrofiad a chymhwyster ym maes golwg, weithio efo’r tîm am ddiwrnod yr wythnos. Hefyd trefnwyd i athrawes mewn gofal uned ôl-gynnydd mewn ysgol gynradd ym Môn weithio

efo'r tîm yn rhan amser, yn gwneud rhai tasgau, gan nad yw ar hyn o bryd efo cymhwyster yn y maes hwn.

Hysbysebwyd eto am athro/athrawes yn y maes ddiwedd y tymor.

Penodwyd athrawes newydd i weithio efo'r Gwasanaeth Plant ag Anawsterau Clyw ym mis Mai, i ddechrau efo ni ym mis Medi. Roedd y Gwasanaeth Clyw yn gweithredu'n esmwyth trwy'r tymor hwn, gyda'r athrawon a chyda chymorth un cymhorthydd profiadol am rai dyddiau'r wythnos.

Dechreuodd athrawes newydd ym maes anawsterau iaith a chyfathrebu ac awtistiaeth weithio efo'r tîm o ddechrau'r tymor hwn, ac ymgartrefodd yn fuan. Hefyd yn ystod y tymor trefnwyd i gymhorthydd profiadol ddechrau gweithio efo'r tîm yn ogystal â'r athrawon.

Hefyd hysbysebwyd ar ddiwedd y tymor am athrawes i weithio efo'r Gwasanaeth Plant ag Anawsterau Corfforol a Meddygol, sydd yn wasanaeth lle mae angen mwy o gymorth ar hyn o bryd.

Dyma oedd cyfansoddiad y timau ar ddiwedd y tymor:

**Tîm Anawsterau Golwg**
Athrawon cymwysedig**:**
1, 1.0 llawn amser
2, 0.2 llawn amser
Athrawon heb gymhwyster:
3, 0.5 llawn amser
Cymhorthydd profiadol:
4, 0.6 llawn amser

**Tîm Anawsterau Clyw**
Athrawon cymwysedig:
1, 0.5 llawn amser
2, 0.9 llawn amser
3, 0.7 llawn amser
Cymhorthydd profiadol:
4, 0.2 llawn amser

**Tîm Anawsterau Iaith a Chyfathrebu ac Awtistiaeth**
Athrawon cymwysedig:
1, 0.8 llawn amser
2, 0.4 llawn amser
Athrawon heb gymhwyster:
3, 1.0 llawn amser
Cymhorthydd profiadol:
4, 0.4 llawn amser

**Tîm Anawsterau Corfforol a Meddygol**

Athrawes brofiadol (nid oes cymhwyster penodol)
1, 0.5 llawn amser

## 3.0 Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Y tîm yn gweithredu'n llawn am y tymor yma, gyda'r tair seicolegwraig gynorthwyol. Roedd modd felly darparu gwasanaeth llawn i'r ysgolion, y seicolegwyr cynorthwyol yn gweithio ar ddarnau o waith mwy penodol, gan nad oeddent yn gallu cyflawni pob un o weithgareddau seicolegydd cymwysedig.

Mae un wedi bod yn gweithio ar y cyd efo CAMHS mewn gwaith grwp, mae dwy ohonynt wedi bod yn cymryd rhan mewn gwaith sgiliau cymdeithasol gyda chyd-lynnwyr Uwchradd ar draws y ddwy sir. Mae'r tair wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant PCP ac wedi gweithio ar ddefnyddiau newydd mewn asesu Awtistiaeth.

Roedd y seicolegwraig sydd yn dysgu Cymraeg wedi trefnu i fynd ar gwrs trochi o fis Medi ymlaen, fel y bydd yn gallu dod yn fwy rhugl a dechrau defnyddio mwy o'r Gymraeg yn ei gwaith.

Cysylltwyd â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, oedd yn awyddus i weithio'n agosach efo'r tîm seicoleg addysgol. Rydym yn gobeithio y bydd modd datblygu hyn i ryw raddau

Y tîm ar ddiwedd y tymor oedd:

| | |
|---|---|
| Prif seicolegydd: | |
| 1, | 1.0 llawn amser |
| Uwch seicolegwyr: | |
| 2, | 1.0 llawn amser |
| 3, | 0.6 llawn amser |
| Seicolegwyr: | |
| 4, | 0.6 llawn amser |
| 5, | 0.6 llawn amser |
| 6, | 1.0 llawn amser |
| 7, | 0.5 llawn amser |
| 8, | 0.8 llawn amser |
| 9, (dysgwraig) | 0.6 llawn amser |
| Seicolegwyr cynorthwyol: | |
| 1, | 1.0 llawn amser |
| 2, | 1.0 llawn amser |
| 3, | 1.0 llawn amser |